



Llyfrgell Genedlaethol Cymru  
The National Library of Wales  
Aberystwyth



Cylchgronau Cymru  
Welsh Journals Online

Awdur  
Author

E. Wyn James.

Teitl erthygl  
Article title

"Eryn Goronwy Owen a Samuel Collet"

Teitl cylchgrawn  
Journal title

*Y Traethodydd*  
*Y Traethodydd*

Rhifyn  
Issue

Cyf. 159 (2004), p. 20-37.

url

Crëwyd a chyhoeddwyd y fersiwn digidol hwn o'r cylchgrawn yn unol â thrwydded a roddwyd gan y cyhoeddwr. Gellir defnyddio'r deunydd ynddo ar gyfer unrhyw bwrpas gan barchu hawliau moesol y crewyr.

The National Library of Wales has created and published this digital version of the journal under a licence granted by the publisher. The material it contains may be used for all purposes while respecting the moral rights of the creators.

JISC



## *Emyn Goronwy Owen a Samuel Collet*

---

### **RHAGARWEINIAD: Nodyn Rhiannon Francis Roberts**

Yn gynnar yn 1990 bu farw Miss Rhiannon Francis Roberts. Wedi gyrfa academaidd ddisglair yng Ngholeg y Brifysgol ym Mangor, lle yr enillodd raddau Dosbarth Cyntaf mewn Lladin a Chymraeg, ymunodd â staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn 1946, gan dreulio 37 o flynyddoedd yno, yn fawr ei chymwynas i ymchwilwyr a ddeuai i Adran y Llawysgrifau. Yn ystod ei naw mlynedd olaf yn y Llyfrgell, hi oedd yn gyfrifol am Greirfa'r Methodistiaid Calfinaidd, a thalodd Curadur y Greirfa, y Parch. J. E. Wynne Davies, y deyrnged hon iddi yn *Cylchgrawn Hanes* yr enwad (rhifyn 14/15, t.1): 'Yn wraig hynod o ddisglair, 'roedd yn dawel ei ffordd a diymhongar ei hysbryd. Nodweddid ei gwaith gan drylwyrredd a chyflawnai bob gorchwyl â chwarteisi digyffelyb.'

Fel y dywedodd y diweddar Athro J. E. Caerwyn Williams mewn teyrnged iddi yn *Y Faner* (9 Mawrth 1990, t.10), un a dreuliodd ei bywyd 'yn y cefndir' oedd Rhiannon Francis Roberts i raddau helaeth iawn. 'Ychydig a gyfrannodd hi'n uniongyrchol at ysgolheictod ei dydd,' meddai, am iddi gymryd yr olwg mai ei swyddogaeth yn y Llyfrgell Genedlaethol oedd 'gwasanaethu'r cyhoedd ac yn arbennig ysgolheigion y cyhoedd'. Ond gall nifer luosog ohonom ategu sylw'r Athro iddi gyfrannu llawer iawn yn anuniongyrchol at ysgolheictod, a chytuno hefyd â'i ddisgrifiad ohoni fel 'patrwm o gwrteisi a charedigrwydd'. Dylid cofio hefyd iddi gyflwyno traethawd MA nodedig ar fywyd a gwaith Dr John Davies, Mallwyd, yn 1950, a bod ei chyfrol hi a'i thad, y Parch. D. Francis Roberts, *Hanes Capel Tegid, Y Bala*, a gyhoeddwyd yn 1957, yng ngeiriau J. E. Caerwyn Williams, 'yn batrwm o'r hyn y dylai hanes capel fod ac y mae'n dra phwysig yn rhinwedd y rhan a chwaraeodd yr achos yno yn hanes y Methodistiaid Calfinaidd'.

Pan oedd yn gweithio yn y Llyfrgell Genedlaethol, daeth Miss Roberts ar draws drafft yn llaw Goronwy Owen o'i gyfieithiad o emyn Samuel Collet. Ym mis Mehefin 1988, ar ddiwedd llythyr ataf ar fater arall, gofynnodd Miss Roberts imi a fyddai gennyf ddiddordeb mewn derbyn nodyn byr ar gyfer *Bwletin* Cymdeithas Emynau Cymru yn tynnu sylw at y drafft hwnnw. Ymatebais yn frwdfrydig, ac yn y mis Tachwedd canlynol derbyniais y nodyn ar gyfer fy sylwadau. Bu peth gohebu rhyngom yn sgil hynny. Bwriad Miss Roberts oedd helaethu'r nodyn byr gwreiddiol yng ngoleuni ein gohebiaeth ac ar sail gwaith ymchwil pellach, ond ysywaeth fe'i rhwystrwyd rhag gwneud hynny gan ei marwolaeth sydyn.

Yn hytrach na chyhoeddi'r nodyn fel y'i cefais gan Miss Roberts yn Nhachwedd 1988, penderfynais mai'r peth cywir fyddai ychwanegu ato ar sail ein gohebiaeth ac ar sail gwaith ymchwil pellach ar fy rhan. Er mai fi a luniodd yr erthygl a ganlyn, erthygl ydyw a dyfodd allan o nodyn gwreiddiol Miss Roberts. Yr wyf yn ddiolchgar iawn i'w brawd, Mr Iolo Francis Roberts, am anfon ataf nodiadau a gohebiaethau ei chwaer ar y pwnc. Hoffwn ddiolch hefyd i Mr Geraint Phillips o'r Llyfrgell Genedlaethol am ganiatáu imi ddyfynnu o'i lythyr ataf ynghylch llawysgrifau William Owen Pughe. Cefais gymorth gan lawer un arall, yn unigolion ac yn staff llyfrgelloedd a sefydliadau, wrth imi ymchwilio i wahanol agweddau ar yr erthygl hon, a'r rheini ar dri chyfandir. Diolch iddynt oll.

### **Samuel Collet a'i gyhoeddiadau**

Yn un o lawysgrifau Mysevin yn y Llyfrgell Genedlaethol – llsg. LIGC 13221E (Mysevin 1), tt. 209-10 – ceir drafft o gyfieithiad Goronwy Owen o emyn Saesneg wyth bennill a briodolir i Dr Samuel Collet, 'Through all the various shifting scene ...' ('Trwy droeau'r byd, a'i wên a'i wg ...').

Anodd cael hyd i fanylion am Dr Samuel Collet. (Ymddengys mai 'Collet' yw'r ffurf ar yr enw a arddelodd ef ei hun, ond gwelir defnyddio'r ffurfiau 'Collett' a 'Colet' hefyd ar ei gyfer ef a/neu aelodau o'i deulu.) Yn ôl John Thickens (*Emynau a'u Hawduriaid*, 1945, tt. 233-4; arg. diwygiedig, 1961, tt. 226-7), yr oedd yn fab i Joseph Collet, gweinidog Presbyteraidd yn swydd Rhydychen. Dywed Thickens mai llygwyr oedd Samuel, ac yn Bresbyteriad selog. Rhaid cofio mai'r hen Bresbyteriaid sydd mewn golwg yma – un o enwadau'r Hen Ymneilltuwyr a wyrai'n gynyddol tuag at Ariaeth ac Undodiaeth wrth i'r ddeunawfed ganrif fynd yn ei blaen – ac nid Presbyteriaeth ddiweddarach y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig. Gwadu Duwdod llawn Iesu Grist a wnâi'r Ariaid. Credent fod Crist yn fod dwyfol a grewyd cyn pob peth, ac mai Crist, trwy ei aberth ar y groes, oedd y

cyfrwng i gymodi dyn a Duw. Ond er mai bod aruchel ydoedd, y cyntaf a'r mwyaf aruchel o holl greadigaethau Duw, bod creedig ydoedd, heb fod o'r un sylwedd â Duw'r Tad nac yn gyd-dragwyddol ag Ef. Mae'r Athro R. Geraint Gruffydd yn crynhoi tueddiadau diwinyddol ymneillruwyr y ddeunawfed ganrif mewn modd hwylus yn ei erthygl 'Cefndir Meddyliol a Diwinyddol y Cyfnod' yn y gyfrol *Y Ferch o Ddolwar Fach*, gol. Dyfnallt Morgan (1977):

Fe flinwyd yr Anghydfurfwyr i gyd yn ystod y ddeunawfed ganrif gan ddadleuon diwinyddol, ac at ei gilydd fe droes yr hen Bresbyteriaid a'r Bedyddwyr Cyffredinol yn Arminiaid i ddechrau (hynny yw, yn dadlau fod gan ddyn ewyllys rydd ym mater ei iachawdwriaeth), ac wedi hynny'n Ariaid (hynny yw, yn gwadu fod Iesu Grist yn Fab Duw o dragwyddoldeb), ac yn olaf yn Undodiaid (hynny yw, yn gwadu dwyfoldeb Crist yn gyfan gwbl). Ar y cyfan fe arhosodd yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr Caeth yn gadarn Galfinaidd (t.20).

Ac fel y gwelwn isod, ymddengys mai Ariaidd oedd Samuel Collet o ran ei ddiwinyddiaeth. (Wrth fynd heibio, mae'n werth pwysleisio pwysigrwydd cyfrol fawr John Gwili Jenkins, *Hanfod Duw a Pherson Crist*, a gyhoeddwyd yn 1931, i'r sawl sydd am ymgynabod â hanes y dadleuon ynghylch y Drindod yng Nghymru'r ddeunawfed ganrif, gan gynnwys hanes Ariaeth.)

Priodolir saith o gyfrolau i Samuel Collet, oll yn grefyddol eu testunau. Fe'u cyhoeddwyd rhwng 1734 ac 1764:

*A practical paraphrase on the seven catholick epistles [sef Epistolau Iago, 1-2 Pedr, 1-3 Ioan a Judas]: after the manner of the late Reverend Dr. Clarke's Paraphrase of the four Evangelists. Useful for families* (Llundain: J. Noon, 1734), vi+154 tud.

*A paraphrase on the fifth, sixth and seventh chapters of Matthew, with proper soliloquies at every period. In a letter from a Father to a Son* (Llundain: John Noon, 1737; ail arg., Llundain: John Noon, 1746; trydydd arg., Llundain: J. Williams, 1764), 80 tud.

*Several letters, containing useful directions for the conduct of young persons in private life. With an enquiry into natural and reveal'd religion. Originally written for the use of a young gentleman in a foreign country* (Llundain: J. Noon, 1739), iv+84 tud.

*The Christians rule of love, as it respects their conduct to one another, exhibited in a clear and distinct light. In a discourse on the duty of love: from I Corinthians XIII. 4, 5, 6, 7 ... By the author of A paraphrase on Chap. V. VI. and VII. of Matthew* (Llundain: J. Noon, 1742), 80 tud.

*A practical paraphrase on the Epistles of St. Paul to the Romans and the Galatians, and on the Epistle to the Hebrews. After the manner of the late Reverend Dr. Clarke's Paraphrase on the Four Evangelists. Useful for families. By Samuel Collet (Llundain: J. Noon, 1744), xii+260 tud.*

*A treatise of the future restoration of the Jews and Israelites to their own land. With some account of the goodness of the country, and their happy condition there, till they shall be invaded by the Turks: with their deliverance from all their enemies, when the Messiah will establish his Kingdom at Jerusalem, and bring in the last glorious ages. Address'd to the Jews (Llundain: J. Highmore, M. Cooper & G. Freer, 1747; arg. arall, Llundain: G. Freer, 1747), 88 tud.*

*A form of prayer and exhortation for baptism: with a preface containing the author's sentiments upon that subject (Llundain: J. Whiston, B. White, J. Noon, R. Griffiths & T. Piety, 1761), iv+32 tud.*

[Rhydd Samuel Halkett a John Laing y dyddiad 1721 ar gyfer y gyfrol hon yn eu *Dictionary of Anonymous and Pseudonymous English Literature*, ond heb nodi eu ffynhonnell dros hawlio hynny, ysywaeth. Fe allai cyfrol 1761 fod yn ail argraffiad felly, er nad yw hynny'n debygol am fod yr awdur yn cyfeirio yn ei ragair at gyfrol Richard Harrison, *A New Office of Baptism* (1759).]

Cyhoeddwyd yr holl gyfrolau hyn, ac eithrio un 1744, heb enw awdur wrthynt; ond ar ddiwedd cyfrol 1744, wrth restru'r pum cyfrol gyntaf uchod, dywedir: 'These Five above by *Samuel Collet, Gent.*' Nid oes enw awdur yn argraffedig ar gyfrol 1747, ond ychwanegwyd yr enw 'Samuel Collett, M. D.' mewn inc ar wynebddalen un o gopiau'r Llyfrgell Brydeinig. Ceir 'LONDON, November 1746' ar ddiwedd y cyflwyniad ar ddechrau cyfrol 1747, sy'n awgrymu fod Samuel Collet yn byw yn Llundain yr adeg honno, os ef oedd awdur y gyfrol.

Cyfrol fwyaf poblogaidd Samuel Collet oedd yr un ar y Bregeth ar y Mynydd, *A paraphrase on the fifth, sixth and seventh chapters of Matthew*, a gyrhaeddodd drydydd argraffiad yn 1764, argraffiad a oedd, fel y rhai blaenorol, heb enw awdur wrtho. John Noon (1679/80-1763) a gyhoeddodd ddau argraffiad cyntaf *A paraphrase on the fifth, sixth and seventh chapters of Matthew*. Ef hefyd a gyhoeddodd y cyfrolau eraill o waith Collet a ymddangosodd rhwng 1734 ac 1746, ac yr oedd yn un o gyhoeddwyr cyfrol 1761; ond bu farw Noon y flwyddyn cyn cyhoeddi trydydd argraffiad y gyfrol ar y Bregeth ar y Mynydd yn 1764.

Mae copi'r Llyfrgell Genedlaethol o gyfrol gyntaf Collet, *A practical paraphrase on the seven catholick epistles* (1734), yn un diddorol iawn. Ei rif galw yw BS 2777 A3 d34. Cyrhaeddodd y Llyfrgell yn Ebrill 1965, yn un o gasgliad bychan o lyfrau a ddaeth yno'n rhodd gan y gweinidog Annibynnol, D. E. Williams (1901-97), Pontyberem. (Diolchaf i Mr

Charles Parry o'r Llyfrgell Genedlaethol am yr wybodaeth hon.) Mae mwy nag un o lyfrau Samuel Collet yn pwysleisio eu defnyddioldeb ar gyfer teuluoedd. Yn rhagair cyfrol 1734, dywed Collet mai deunydd wedi'i fwriadu yn wreiddiol at ddefnydd ei deulu ei hun oedd cynnwys y llyfr. Mae deuddeg tudalen gweili ychwanegol wedi eu rhwymo ar bob pen i gopi'r Llyfrgell Genedlaethol o gyfrol 1734. Ar saith tudalen cyntaf y tudalennau gweili sydd ar ddechrau copi'r Llyfrgell, ceir anerchiad llawysgrif at blant yr awdur wedi'i arwyddo 'Sam' Collet'. Mae'r llofnod mewn ysgrifen wahanol i'r anerchiad, a gellir tybio mai yn llaw Samuel Collet ei hun y mae'r llofnod. Mae llofnod perchennog wedi'i dorri ar y gyfrol hefyd, sef 'John Collet'. Ymddengys felly mai un o'r copiau a gyflwynodd Samuel Collet i'w blant ef ei hun yw copi'r Llyfrgell Genedlaethol o gyfrol 1734.

Fel y nodir ar eu hwynebddalennau, y mae cyfrolau esboniadol Samuel Collet, ei *Paraphrases*, yn efelychu patrwm cyfrolau gan Dr Samuel Clarke (1675-1729), clerigwr a fu'n hyrwyddo Ariaeth y tu mewn i Eglwys Loegr ac a fu'n ddylanwad pwysig er hybu Ariaeth ymhlith yr Hen Ymneilltuwyr hwythau. Barn John Thickens oedd mai un a goleddai Ariaeth oedd Samuel Collet o ran ei ddiwinyddiaeth, heb gyrraedd Undodiaeth gyflawn, a diau ei fod yn gywir. Mae gan Collet olwg aruchel iawn ar berson Crist. Fe'i darlunnir ganddo yn ei gyfrolau fel unig-anedig Fab Duw, un a oedd yn bod gyda Duw cyn creu'r byd ac sydd yn wir lun ei berson. Trwyddo ef y creodd Duw bob peth; ef hefyd yw'r Iachawdwr mawr a drefnwyd cyn bod y byd i achub dynolryw trwy ei farwolaeth ar y groes. Ar yr un pryd, cyfeiria Collet yn gyson at Dduw'r Tad fel y 'supreme God', megis yn ei ragair i'w gyfrol gyntaf, sy'n diweddu trwy sôn am 'Jesus Christ our king and head under the supreme God and Father of all'. Ond os nad oedd Collet wedi cyrraedd Undodiaeth gyflawn, hyd y gellir barnu, mewn casgliadau emynau Undodaidd yr ymddangosodd ei emyn, 'Through all the various shifting scene', amlaf.

### Litwrgi Lerpwl

Fel arfer olrheindir yr emyn i'r gyfrol *A Form of Prayer, and a New Collection of Psalms, for the Use of a Congregation of Protestant Dissenters in Liverpool* (1763), llyfr a adwaenid yn gyffredin fel y 'Liverpool Liturgy'; ond dywed John Thickens fod 'yr emyn ar gael ers blynyddoedd cyn hynny mewn casgliadau eraill', a'i fod wedi'i weld mewn rhai casgliadau o'r 1750au – er nad yw, ysywaeth, yn eu henwi!

Cyfrol a baratowyd at ddefnydd cynulleidfa'r Octagon Chapel, Temple Court, Lerpwl, yw *A Form of Prayer, and a New Collection of Psalms* (1763). Fe'i cyhoeddwyd gan y gynulleidfa honno, ac yn ôl yr wynebddalen yr oedd ar werth gan Chr. Henderson yn Llundain a John



Sibbald yn Lerpwl. Mae dwy ran i'r gyfrol. Rhyw fath o lyfr gweddi gyffredin yw'r rhan gyntaf, yn cynnwys ffurfwasanaethau ar gyfer gwasanaethau boreol a hwyrol, ynghyd â nifer o ffurfweddiâu achlysurol. Casgliad o gant a hanner o emynau, llawer ohonynt yn fydryddiadau o'r Salmau, yw'r ail hanner. Mae gan y rhan honno o'r llyfr ei hwynebddalen annibynnol ei hun, ac ymddengys iddi fod ar werth ar wahân, fel casgliad o emynau, yn ogystal ag fel rhan o'r gyfrol gyfansawdd. Dienw yw holl emynau'r casgliad. Mae rhywun wedi ychwanegu mewn inc ar un o gopiâu'r Llyfrgell Genedlaethol (rhif galw BX 7237 F72) ffynhonnell a/neu awduraeth nifer helaeth ohonynt (ond nid ar gyfer emyn Samuel Collet, ysywaeth). O hynny, gellir casglu mai Isaac Watts yw awdur dros hanner yr eitemau. Ymhlith yr awduron eraill, Tate & Brady a Simon Browne yw'r amlycaf; yr enwau eraill a nodir yw Patrick, Addison, Doddridge, Grove a Pope; ac fe welir o droi at gyfrol John Julian, *A Dictionary of Hymnology* (arg. 1915), tt.1191-2, fod detholiad 1763 yn perthyn yn agos iawn o ran natur y cynnwys ac enwau'r awduron i nifer o gasgliadau emynau Saesneg Ariaidd eu naws a luniwyd gan Bresbyteriaid Lloegr yn yr 1750au a'r 1760au.

Ni nodir enw nac awdur na golygydd ar dudalennau *A Form of Prayer, and a New Collection of Psalms* (1763). Yn ogleisiol iawn, mae Halkett a Laing yn eu *Dictionary of Anonymous and Pseudonymous English Literature* yn ei briodoli i Dr John Collet(t), ond heb nodi eu ffynhonnell na dim manylion am y Collet hwnnw. (Ai mab i Samuel Collet oedd ef, tybed? Cofier am y John Collet a dorrodd ei enw ar gopi'r Llyfrgell Genedlaethol o gyfrol gyntaf Samuel Collet.) Yn ôl y *Dictionary of National Biography*, y gweinidog Presbyteraidd o Warrington ac un o sylfaenwyr Academi Warrington, John Seddon (1725-70), oedd y golygydd, yn cael ei gynorthwyo gan ddau weinidog Presbyteraidd amlwg arall o'r cyffiniau, Richard Godwin (1722-87) a Philip Holland (1721-89). Philip Holland a luniodd y trydydd ffurfwasanaeth yn y llyfr. Roedd ef o dras Cymreig, gan ei fod yn orwyr i Philip Henry (tad yr esboniwr enwog, Matthew Henry). Cymro hefyd oedd rhagflaenydd John Seddon yn Warrington, sef Charles Owen, a fu'n weinidog yn Warrington o 1699 hyd ei farw yn 1746. Cadwai academi yno yn ogystal. Yr oedd enw da iawn i Charles Owen fel athro ac ysgolhaig, a derbyniodd D.D. Prifysgol Caeredin yn 1728, yr un adeg ag Isaac Watts. Brodor o sir Gaerfyrddin ydoedd, yn frawd i'r gweinidog ymneilltuol amlwg, James Owen (1654-1706), ac yn ewythr i Jeremy Owen, awdur *Golwg ar y Beiau* (1732-3).

Cyd-destun llunio'r 'Liverpool Liturgy' oedd yr awydd a gododd ymhlith rhai yng nghyffiniau Lerpwl i ddefnyddio ffurfweddiâu mewn gwasanaethau ymneilltuol. Bu dadlau brwd ynghylch y mater o tua

1750 ymlaen, ac yn 1760 cytunodd nifer o bobl yn Lerpwl, dan arweiniad Thomas Bentley (1731-80) – a oedd i ddod maes o law yn bartner busnes i'r crochenydd enwog, Josiah Wedgwood – i godi capel ar gyfer addoli ymneilltuol litwrgaidd, sef yr Octagon Chapel yn Temple Court, a agorwyd ym Mehefin 1763. Cwmni cymysg o Anglicaniaid a Phresbyteriaid a ddaeth ynghyd i ffurfio cynulleidfau'r capel. Oherwydd eu tueddiadau Ariaidd, nid oedd ffurfwasanaethau'r *Llyfr Gweddi Gyffredin* yn dderbyniol ganddynt, a dyna'r rheswm dros lunio'r ffurfwasanaethau newydd a gyhoeddwyd yn *A Form of Prayer, and a New Collection of Psalms* (1763). Cyflwynwyd y litwrgi newydd i'r cwmni yn Ionawr 1762 mewn cyfarfod yn y Merchants' Coffee-House yn Lerpwl. Dyna'r ffurfwasanaethau a ddefnyddiwyd yn y capel o'r dechrau; ond ni pharhaodd yr arbrawf yn hir. Caewyd y capel yn Chwefror 1776 a daeth yr adeilad yn gartref i eglwys Anglicanaidd St Catherine.

### **Ffynhonnell Goronwy**

Fel y nodwyd uchod, *A Form of Prayer, and a New Collection of Psalms* (1763) yw'r ffynhonnell gynharaf a roddir fel arfer ar gyfer emyn Samuel Collet. Rhif 53 ydyw yn y casgliad hwnnw (tt. 57-8). Fe ddigwydd yn yr adran 'Psalms of Praise', a rhoddwyd y pennawd 'Divine Providence' yn destun uwch ei ben, gan nodi hefyd ei fod ar y Mesur Hir. Ond gellir bod yn sicr nad cyfrol 1763 oedd ffynhonnell Goronwy Owen ar gyfer ei gyfieithiad ef o'r emyn. Yn un peth, yr oedd Goronwy yn America erbyn 1763, wedi ymfudo yno yn 1757 ac wedi cyfieithu'r emyn i'r Gymraeg yn 1754, yn ôl pob tebyg (fel y gwelwn isod). Ar ben hynny, pedwar pennill yn unig sydd yng nghasgliad 1763, tra bod wyth yng nghyfieithiad Goronwy. Ymhle, felly, y daeth Goronwy Owen ar draws yr emyn Saesneg?

Gosododd Robert Jones, Rotherhithe, fersiwn wyth-pennill o'r emyn Saesneg gwreiddiol yn gyfochrog â chyfieithiad Goronwy yn *The Poetical Works of the Rev. Goronwy Owen*, cyf. 1 (1876), tt. 153-6. Gwelir o hynny mai penillion 1, 2, 7 ac 8 o'r emyn gwreiddiol a gyhoeddwyd yn *A Form of Prayer, and a New Collection of Psalms* (1763). Ceir nifer o wahaniaethau rhwng geiriad y penillion yng nghyfrol 1763 a'u geiriad yng nghyfrol Robert Jones, Rotherhithe. Cyfyd y rhan fwyaf o'r rheini o'r ffaith fod fersiwn cyfrol Robert Jones yn cyfeirio at Dduw yn y trydydd person hyd at y pennill olaf, tra bod casgliad 1763 yn ei gyfarch yn yr ail berson. Er enghraifft, yn nhrydedd linell y pennill cyntaf, 'The hand of God' sydd yn fersiwn Robert Jones, tra bod fersiwn 1763 yn darllen 'Thy hand, O God'. Ac o gymharu'r ddau fersiwn Saesneg â chyfieithiad Goronwy, ceir prawf pellach, pe bai ei angen, nad cyfrol 1763 oedd ffynhonnell Goronwy, oherwydd dilyn



geiriad fersiwn cyfrol Robert Jones, Rotherhithe, yn hytrach na geiriad fersiwn casgliad 1763 a wna Goronwy yn ei gyfieithiad.

Ysyaeth, nid yw Robert Jones yn nodi ei ffynhonnell ar gyfer ei fersiwn wyth-pennill o'r emyn Saesneg, ac nid yw felly o gymorth wrth geisio datrys problem ffynhonnell Goronwy Owen. Ai o gyfrol, neu gylchgrawn, neu lawysgrif, neu hyd yn oed o ffynhonnell lafar, y cafodd Goronwy yr emyn? Bûm yn chwilio'n ofer am fersiwn wyth-pennill o'r emyn o ganol y ddeunawfed ganrif; ac yn dechrau anobeithio. Yna, tra oeddwn ar berwyl arall, digwyddais droi at gopi o lyfr emynau Saesneg o ddiwedd y ddeunawfed ganrif a oedd yn fy meddiant. Copi o *A Collection of Hymns and Psalms, for Public and Private Worship*, a gyhoeddwyd yn Llundain yn 1795, yw'r llyfr hwnnw. (Gyda llaw, torrwyd yr enw 'Thomas Williams Tyntyla Farm Ystrad Rhondda Oct 1883' ar fy nghopi i.) Mae'n gyfrol sylweddol o dros 500 tudalen, ac yn y traddodiad Presbyteraidd Ariaidd. Gweinidogion Presbyteraidd yn Llundain oedd y pedwar golygydd, Andrew Kippis, Abraham Rees, Thomas Jervis a Thomas Morgan. Cymry oedd dau o'r pedwar, Dr Abraham Rees (1743-1825) yn fab i Lewis Rees, gweinidog Annibynnol Llanbryn-mair, ac yn disgyn ar ochr ei fam o deulu John Penry, a Dr Thomas Morgan (1752-1821) yn fab i Thomas Morgan, gweinidog Annibynnol Henllan Amgoed. Ac yr oedd Dr Kippis yntau yn un o gydnabod Iolo Morganwg. Nodir enw awdur neu ffynhonnell uwchben yr emynau. Rhif 377 yn y casgliad hwn yw 'Thro' all the various shifting scene', ac uwch ei ben ceir, nid enw Collet, ond 'Gent. Mag.', yn arwydd ei fod wedi'i godi o'r *Gentleman's Magazine*, y cylchgrawn misol poblogaidd a dylanwadol y dechreuwyd ei gyhoeddi yn 1731.

Bûm yn chwilio'n gyflym yn adran farddoniaeth y cylchgrawn o tua chanol yr 1740au hyd at ganol yr 1750au. Wrth wneud, deuthum ar draws 'Rule Britannia' a'i cherddoriaeth yn rhifyn Mawrth 1755. Digwyddais hefyd weld dau ddarn Cymraeg – emyn Nadolig ('Deffrowch o'ch bron Trigolion Byd') yn rhifyn Chwefror 1752 a chyfieithiad o epigram Groegaidd yn rhifyn Rhagfyr 1753. Ond methais daro ar emyn Collet. Yna cefais wybod gan arbenigwraig ar y *Gentleman's Magazine*, yr Athro Emily Lorraine de Montluzin, am gyfrol hynod ddefnyddiol o waith Dr Titia Ram, *Magnitude in Marginality: Edward Cave and The Gentleman's Magazine, 1731-1754* (1999), sy'n cynnwys mynegai i linellau cyntaf yr ychydig dros bum mil o gerddi a ymddangosodd yn y *Gentleman's Magazine* rhwng dechrau cyhoeddi'r cylchgrawn yn 1731 a diwedd 1754. Emyn Collet yw cerdd rhif 4950 yn rhestr Dr Ram, a nodir yno iddo ymddangos yn rhifyn Gorffennaf 1754. (O gofio i Goronwy Owen hwylio i America ymhen tair blynedd, diddorol oedd gweld map â'r pennawd 'A Map of the British American Plantations' yn yr un rhifyn o'r *Gentleman's Magazine*

ag emyn Collet.) Dywed Dr Ram am gerddi'r cylchgrawn yn y cyfnod dan sylw: 'with only a few exceptions . . . the poems were written by unknown, often provincial, amateurs who wrote poetry in their leisure time'. Dywed hefyd mai dim ond tua 10% o gerddi'r cyfnod 1731-54 oedd ag enw eu hawduron odanynt. Dienw oedd llawer iawn ohonynt, ac eraill â ffugenw wrthynt. Dienw yw emyn Collet yn y *Gentleman's Magazine*. Dyma'r emyn Saesneg gwreiddiol fel y'i ceir yno, yn rhifyn Gorffennaf 1754, t.332:

*Of Man's Dependance on his Creator.*

Thro' all the various shifting scene  
Of life's mistaken ill or good,  
The hand, [*sic*] of God conducts, unseen,  
The beautiful vicissitude.

He portions with paternal care,  
Howe'er unjustly we complain,  
To each their necessary share  
Of joy and sorrow, health and pain.

Trust we to youth, or friends, or pow'r,  
Fix we our foot on fortune's ball,  
When most secure, the coming hour,  
If he sees fit, may blast them all.

When lowest sunk with grief and shame,  
Gorg'd with affliction's deepest cup,  
Lost to relations, friends and fame,  
His pow'rful arm can raise thee up.

Before his throne the poor, opprest  
With sland'rous rage, acquitted stand;  
He guides the exile to his rest,  
And country, in a foreign land.

His pow'rful consolations cheer,  
His smiles erect th' afflicted head,  
His hand can wipe away the tear,  
That secret wets the widow'd bed.

All things on earth, and all in heav'n  
On his eternal will depend;  
And all for greater good were giv'n,  
Would man persue th' appointed end.

This be my care: to all beside  
 Indifferent let my wishes be;  
 Passion be calm, and dumb be pride,  
 And fix'd my soul, my God, on thee.

(Ceir rhai gwahaniaethau geiriol rhwng y fersiwn uchod a'r fersiwn Saesneg a gyhoeddodd Robert Jones, Rotherhithe, sy'n golygu nad rhifyn Gorffennaf 1754 o'r *Gentleman's Magazine* oedd ffynhonnell y fersiwn sydd yn ei gyfrol ef.)

### Cyfieithiad Goronwy

Yn 1763 – yr un flwyddyn, fel mae'n digwydd, ag yr ymddangosodd y 'Liverpool Liturgy' o'r wasg – y cyhoeddwyd cyfieithiad Cymraeg Goronwy Owen o emyn Collet am y tro cyntaf, a hynny yn *Diddanwch Teuluaidd* Huw Jones o Langwm (tt.95-6). Gan Richard Morris y cafodd Huw Jones waith Goronwy. Rhoddodd Richard iddo'r copi o gerddi Goronwy yr oedd y bardd ei hun wedi'i baratoi ar gyfer y wasg yn 1757, cyn iddo ymadael am Virginia. Richard hefyd a lywiodd y gyfrol trwy'r wasg (gw. G. J. Williams, 'Llythyrau at Ddafydd Jones o Drefriw', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, Atodiad, Cyfres III, Rhif 2, 1943, tt.32, 37). Dyma'r cyfieithiad fel y'i ceir yn *Diddanwch Teuluaidd*:

*Dyledswydd a Doethineb DYN, yw  
 ymfodloni i Ewyllys ei Greawdwr; a Translation of,*

*Through all the various shifting Scene  
 Of Life's mistaken Ill or Good,  
 The Hand of God conducts unseen,  
 The Beautiful Vicissitude, &c. &c.*

1

Trwy Droiau 'r Byd, a'i wên a'i wg,  
 Bid da, bid drwg, y tybier;  
 Llaw DDUW sy'n troi'r Cwmpasgylch glân,  
 Yn wiwlan, er na weler.

2

O'i dadawl Ofal, Ef a rydd  
 Yr hyn y sydd gymhedrol,  
 O hawddfyd, Adfyd, Iechyd, Cur,  
 Ond da ei gymhesur fantol?

3

Pe rhoem ar Geraint, Oed, neu Nerth,  
 Neu Gyfoeth prydferth, Oglyd;  
 Os Duw a'i myn, *Fe* 'n teifl i lawr,  
 A'n Rhodres mawr mewn Munud.

4

Os yfaist Gwppan lawn o'i Lid,  
 A'th doi â Gwrid a Gwradwydd;  
 Od wyt Gyff cler a Bustl i'r Byd,  
 Fe'th gyfyd i Fodlonrwydd.

5

*Fe* weryd Wirion yn y Frawd,  
 Rhag Enllib Tafawd atcas:  
*Fe* rydd Orphwysfa i Alltud blin,  
 Mewn anghynefin Ddinas.

6

Ei Gysur *Ef* sydd yn bywhau  
 Y Pennau gogwyddedig:  
*Fe* sych â'i Law y llif sy'n gwau  
 Hyd Ruddiau 'r Weddw unig.

7

Oes dim nac yn, na than y Nef,  
 Nad *Ef* sydd yn ei beri?  
 Ac *Ef* a roes (gwnaed Dŷn ei Ran)  
 Y cyfan er Daioni.

8

Pa raid ychwaneg? Gwnelwyf hyn;  
 Gosteged Gwŷn a Balchder:  
 Arnat ti, Dduw, fy Ngheidwad glwys,  
 Bid fy holl Bwys a'm Hyder.

### **Drafft Goronwy**

Fel y nodwyd ar ddechrau'r arthvel hon, cedwir drafft

ym mhennill 3, llinell 2, a 'pe' yn 'os' yn y llinell nesaf. Yn ogystal, ceir llinell wedi'i dileu ar ôl llinell 2 ym mhennill 4, sef 'Yn fustl ith geraint', a llinell arall wedi'i dileu cyn llinell gyntaf pennill 5, sef 'Efe sy'n cyfiawnhau'.

Trwy Droiau'r Byd a'i wen a'i wg,  
 Bid da bid drwg, y tybier,  
 Llaw Dduw sy'n troi'r cwmpasgylch glan  
 Yn wiwlan er na weler.

O'i dadawl ofal ef a rydd  
 Yr hyn y sydd gymhedrol  
 O hawddfyd, adfyd, Iechyd, Cur  
 Ond da'i gymhesur fantol?

Pe rhoem ar geraint, oed neu nerth  
 neu gyfoeth prydferth oglyd  
 Os Duw a fyn fe'n bwria i lawr  
 an rhyfyg mawr mewn munud

Os yfaist gwppan llawn o'i lid  
 A'th Doi a gwrid a gwradydd  
 Od wyt gyff cler a bustl i'r Byd  
 fe'th cyfyd i fodlonrwydd

Fe weryd wirion, yn y frawd,  
 Rhag enllib tafawd atgas  
 Fe rydd orphwysfa i alltud blin  
 Mewn anghynnefin Ddinas

Ei gysur ef sydd yn bywhau  
 Y pennau gogwyddedig  
 Ei Law a sych y Deigr sy'n gwau  
 hyd ruddiau'r weddw unig.

Oes dim nag yn na than y nef  
 nad ef sydd yn ei beri  
 Ac ef a roes (gwnaed Dyn ei rann)  
 Y cyfan er daioni.

Pa'm raid ychwaneg; gwnelwyf hyn  
 Gosteged Gwŷn a Balchder  
 Arnat ti, Dduw fy ngheidwad glwys  
 Bid fy holl bwys a'm hyder.

hytrach na 'Pa'm raid', ond y mae'r unig wahaniaethau o sylwedd i'w gweld ym mhennill 3, llinellau 3-4:

Os Duw a'i myn, *Fe* 'n teifl i lawr,  
A'n Rhodres mawr mewn Munud.

ac ym mhennill 6, llinell 3:

*Fe* sych â'i Law y llif sy'n gwau

Erbyn heddiw tudalennau 209-10 yn llawysgrif LIGC 13221E yw'r ddalen yr ysgrifennwyd y cyfieithiad arni. Ar y tudalennau sydd o bobtu i'r ddalen honno ceir nifer o gerddi eraill gan Goronwy Owen, eto yn llaw Goronwy ei hun. Cerddi ydynt a luniwyd gan mwyaf yn yr 1750au. Dalennau ar wahân oedd y tudalennau hyn yn wreiddiol, ac wedi'u cydrwymo rywbryd ar ôl ysgrifennu'r cerddi arnynt.

Casgliad o ddefnyddiau amrywiol yw LIGC 13221E. Llythyrau yw llawer o'r cynnwys, tua chant ohonynt i gyd, yn dyddio rhwng 1786 ac 1806, a'r rhan fwyaf ohonynt at William Owen Pughe. Yr oedd y defnyddiau wedi'u cydrwymo yn eu rhwymiad presennol erbyn i'r llawysgrif gyrraedd y Llyfrgell Genedlaethol yn 1940, yr un adeg â gweddill casgliad llawysgrifau Mysevin. Mewn llythyr e-bost ataf, dywed Mr Geraint Phillips, Llyfrgellydd Llawysgrifau'r Llyfrgell Genedlaethol, i'r llawysgrif gael ei rhwymo, yn ôl pob tebyg, naill ai gan William Owen Pughe ei hun, neu gan ei fab, Aneurin Owen. Dywed ymhellach:

Nid wyf yn sicr sut y daeth yr eitemau o waith Goronwy Owen i feddiant Pughe. Roedd darllen mawr ar waith Goronwy ymhlith aelodau Cymdeithas y Gwyneddigion pan oedd Pughe yn Llundain, a thipyn o gyfnewid llsgrau. Mae'n ddigon posibl mai deunydd strae sydd yma o gasgliad Richard Morris (sydd bellach yn y Llyfrgell Brydeinig). Bu Pughe wrthi'n catalogio'r casgliad hwnnw, yn Ysgol y Cymry, yn ystod y 1780au.

Yn achos y ddalen y ceir y cyfieithiad o emyn Collet arni, mae'n amlwg iddi fod ar un adeg yn rhan o lythyr a anfonwyd at Goronwy Owen pan oedd yn gurad yn Walton, oherwydd ar gefn y ddalen ceir y geiriau 'To the Reverend Mr Owen at Walten [*sic*] Liverpool'. Dechreuodd Goronwy Owen ar ei waith yn gurad Walton, ger Lerpwl, ar 29 Ebrill 1753 a bu yno hyd 29 Ebrill 1755, pan adawodd am Lundain. Yng nghyfrol gyntaf *Gwaith Goronwy Owen* (1902) yng Nghyfres y Fil, awgrymodd O. M. Edwards (t.7) mai yn ystod ei gyfnod yn Donnington, yn ymyl Amwythig, ychydig cyn iddo symud i Walton, y lluniodd Goronwy ei gyfieithiad o emyn Collet. Erbyn cyhoeddi'r ail gyfrol yr oedd wedi newid ei farn ac yn ei ddyddio i 1754 (t.6). A diau mai dyna sy'n gywir, oherwydd fel y gwelwyd uchod, yng



Ngorffennaf 1754 yr ymddangosodd yr emyn yn y *Gentleman's Magazine*, a'r casgliad rhesymol yw i Goronwy ei gyfieithu wedi iddo ei weld yn y fan honno – er y gallai fod wedi cael yr emyn o ffynhonnell arall, wrth gwrs, un lafar neu lawysgrif dyweder.

### 'Prydodd dalm o bêr Salmau?'

Ymdriniodd Syr Ifor Williams â rhai o benillion cyfieithiad Goronwy yn yr ysgrif 'Ychydig Eiriau', a ymddangosodd yn *Y Traethodydd*, Ebrill 1958, tt. 91-6, ac yna yn ei gyfrol, *I Ddifyrru'r Amser* (1959), tt. 92-9. Trafod tarddiad ac ystyr rhai o eiriau'r emyn a wna Syr Ifor yn yr ysgrif, gan ddyfarnu'r 'wobr gyntaf am anhawster ei Gymraeg i ddarllenwydd o'r oes hon' i gyfieithiad Goronwy! Nid oedd hoffter Goronwy Owen o eiriau dieithr a hynafol o fantais iddo fel awdur deunydd ar gyfer canu cynulleidfaol, a phrin y gellid estyn iddo (am y cyfieithiad hwn, o leiaf) y clod a rydd ef i 'Ganiedydd Israel', Dafydd Frenin, yn ei gywydd enwog, 'Bonedd a Chyneddfau'r Awen':

Pyncio wnâi ef [Dafydd] fel pencerdd  
 Nefol a rhagorol gerdd:  
 Prydodd dalm o bêr Salmau,  
 Fwyned im ynt, f'enaid mau; . . .  
 Am ganu ni fu, ni fydd,  
 Hoyw ei fawl, ei hefelydd.

Dywedir mai aralleiriad o Salm 107 yw emyn Collet, ond anodd anghytuno â Syr Ifor pan ddywed, 'Ffolineb yw galw ei waith [Collet] yn Alleiriad o Salm 107, er bod ambell linell yn ddiau wedi ei seilio arni, neu wedi eu hawgrymu ganddi.' Mae llinellau agoriadol emyn Collet yn debyg iawn i rai agoriadol mydryddiad Tate a Brady (1696) o Salm 34, 'Through all the changing scenes of life, / In trouble and in joy'. Ac er nad yw'r tebygrwydd rhwng y ddwy gerdd Saesneg yn ymestyn ymhellach na hynny, byddai'r un mor rhwydd, onid yn rhwyddach, ystyried emyn Collet yn fydryddiad o Salm 34 yn hytrach nag o Salm 107.

### Yr ysgogiad i gyfieithu'r emyn

Tybed beth a ysgogodd Goronwy i gyfieithu emyn Collet? A yw, o bosibl, yn adlewyrchu poblogrwydd yr emyn yng nghyffiniau Lerpwl yn y cyfnod, ac yn benodol ymlith y Presbyteriaid a'r Anglicaniaid hynny a fu'n cyd-drafod materion litwrgaidd yn ystod yr 1750au, trafodaethau a esgorodd ar y 'Liverpool Liturgy' maes o law? Go brin y câi Goronwy unrhyw anhawster i symud mewn cylchoedd Ariaidd o'r fath. 'Yn ei syniadau gwleidyddol yr oedd yn Chwig', meddai Saunders Lewis amdano (*Meistri'r Canrifoedd*, gol. R. Geraint Gruffydd, 1973,

t.261). Tueddai'r Chwigiadaid at fod braidd yn 'benagored yn eu diwinyddiaeth' (chwedl R. T. Jenkins yn ei *Hanes Cymru yn y Ddeunawfed Ganrif*, 1931, t.29). A dyfynnu G. R. Cragg: 'The Whigs . . . believed in toleration and so were lenient towards unorthodoxy' (*The Church and the Age of Reason*, 1960, t.120, cf. tt.153, 158, 169), a thueddai nifer ohonynt at Ariaeth.

Diddorol yng nghyswllt y 'Liverpool Liturgy' yw gweld fod un o gydnabod Anglicanaidd Goronwy yng nghyfnod Walton – Cymro o Langurig o'r enw Edward Owen (1728-1807), a oedd yn gurad Crosby pan gyfarfu Goronwy ag ef gyntaf – wedi dod yn brifathro Ysgol Ramadeg Warrington yn 1757 a'i fod, fel John Seddon, awdur y 'Liverpool Liturgy', yn amlwg ym mywyd llenyddol a chymdeithasol Warrington (gw. Alan Llwyd, *Gronwy Ddiafael, Gronwy Ddu*, 1997, tt.117-18; J. H. Davies, 'The Rev. Edward Owen of Warrington and Goronwy Owen', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, Sesiwn 1922-23, cyfrol atodol, tt. 49-79). Barn Edward Owen am y Gymraeg, gyda llaw, oedd ei bod yn 'dying Language', nad oedd ynddi ddim a oedd yn werth ei ddarllen, ac y byddai wedi diflannu o flaen llif y Saesneg ymhen can mlynedd. *Plus ça change . . .*

Nodwyd uchod fod rhyw Dr John Collet yn cael ei gysylltu â pharatoi'r 'Liverpool Liturgy'. Ar ben hynny, roedd rhyw Mrs Collett o Walton ger Lerpwl yn un o'r tanysgrifwyr i gyfrol o farddoniaeth gan y Parch. John Black, curad Butley yn Suffolk yn 1799 (a rhyw S. Collett o Eyke yn Suffolk yn danysgrifiwr arall i'r un gyfrol). Tybed, felly, a'i'r ysgogiad y tu ôl i gyfieithu'r emyn oedd bod Goronwy yn adnabod rhai o deulu Samuel Collet yng nghyffiniau Lerpwl? Neu efallai iddo gael cynnig tâl gan rywrai i gyfieithu'r emyn (cf. Alan Llwyd, *Gronwy Ddiafael, Gronwy Ddu*, tt. 135-6).

Rhaid pwysleisio mai dyfalu llwyr yw hyn oll, a hwyrach mai'r esboniad symlaf a mwyaf boddhaol yw bod thema'r emyn, sef ymfodloni i ewyllys y Creawdwr yng nghanol anawsterau bywyd, wedi apelio at Goronwy yng nghanol ei amgylchiadau anodd yn Walton erbyn ail hanner 1754. Awgrymog, er enghraifft, yw ei weld yn cyfieithu 'Lost to relations, friends and fame' yn y pedwerydd pennill yn 'Od wyt Gyff cler a Bustl i'r Byd'. Yr oedd Goronwy wedi dechrau teimlo'n aflonydd yn Walton erbyn diwedd 1753, a'i lygaid yn dechrau troi tua Llundain. Gwelir hynny yn yr awgrym chwareus mewn llythyr ganddo at Richard Morris yn Rhagfyr 1753, 'fe allai y caf fod naill ai'n "Gadeirfardd" neu'n "Gyff Clêr" i'r Gymdeithas [sef Cymmrodorion Llundain]. Ac anodd peidio â meddwl am Goronwy ei hun wrth ddarllen ei gyfieithiad o gwpled clo pennill 5 yn emyn Collet: 'Fe rydd Orphwysfa i Alltud blin, / Mewn anghynefin Ddinas.' (Ar ei anfodlonrwydd a'i amgylchiadau anodd yn Walton, gan gynnwys colli

ei ferch fach wanllyd Elin yn bymtheng mis oed yn Ebrill 1755, gw. Alan Llwyd, *Gronwy Ddiafael, Gronwy Ddu*, tt. 131-2, 134-5, 144-5, 147-8.)

'Cyfnod arbrofol oedd cyfnod Walton yn ei hanfod [i Goronwy],' meddai Alan Llwyd (t.151), 'a chyfnod o ymbrentisio hefyd, nid cyfnod o gyflawni . . . Cerddi comisiwn, ac nid cerddi emosiwn, oedd llawer o gerddi Walton; cerddi ymarfer ac nid cerddi mawr.' Yn sicr nid un o gerddi mawr Goronwy yw ei gyfieithiad o emyn Collet, ond byddai wedi bod yn ddiddorol gwybod beth yn union a ysgogodd ei gyfieithu.

### ATODIAD: Stennett a Collet

Yn ei golofn 'Mawl a Chân' yn *Y Goleuad*, 29 Awst 1986, t.7, y mae'r diweddar Huw Williams, Bangor, yn tynnu sylw at y tebygrwydd rhwng llinell gyntaf trosiad Goronwy Owen o emyn Collet, 'Trwy droeau'r byd, a'i wên a'i wg', a llinell gyntaf cyfieithiad Ieuan Glan Geirionydd (Evan Evans, 1795-1855) o 'Auld Lang Syne' (Robert Burns, *et al.*), sef 'Er troeon byd, ei wên a'i wg, / A llawer dyrys hynt . . .' (Cynhwyswyd y cyfieithiad o dan y pennawd 'Yr Hen Amser Gynt' yn y casgliad o'i weithiau, *Geirionydd*, a olygwyd gan Richard Parry ('Gwalchmai') yn 1862, tt. 171-2.) Ac fe all fod cyd-ddigwyddiad difyr yn y fan honno, oherwydd un o gynhyrchion mwyaf adnabyddus Ieuan Glan Geirionydd yw ei emyn, 'Ar lan Iorrdonen ddofn', sy'n efelychiad mewn rhan o emyn Saesneg gan Samuel Stennett (1727-95).

Bu tad Samuel, Joseph Stennett (1692-1758), yn weinidog Bedyddiedig yn y Fenni am rai blynyddoedd yn gynnar yn y ddeunawfed ganrif. Yr oedd yn adnabod o leiaf ddau Joseph Collet:

1. *Joseph Collet (1684-1741)*. Brodor ydoedd o Longborough ger Stow in the Wold, swydd Gaerloyw. Deuai o deulu a oedd â'i wreiddiau'n ddwfn yn y Cotswolds ac mewn ymneilltuaeth. Bu'n weinidog Bedyddiedig yn Cote a Longworth, dros y ffin yn swydd Rhydychen, rhwng 1703 a'i farw. Ceir rhai manylion amdano mewn erthygl gan Judith Stichbury, 'The Boy Preacher: Joseph Collett of Coate', yn *New Zealand Genealogist*, cyf. 30, rhif 255 (Ion./Chwef. 1999), t.32; gw. hefyd Margaret Chadd, *Supplement to the Collett Saga* (1997), tt. 71b-c. (Rwyf yn ddiolchgar i Sue Gemmell o'r New Zealand Society of Genealogists am anfon copi o erthygl Judith Stichbury ataf.) Bu cysylltiadau agos rhwng y Joseph Collet hwn a Joseph Stennett (1692-1758), tad Samuel. Cyhoeddwyd y bregeth a draddododd Joseph Stennett yn angladd Joseph Collet ar ffurf llyfryn; ysgrifennodd Joseph Stennett ragair i gyfrol Joseph Collet, *The Unsearchable Depth of God's Judgments* (1742), a gyhoeddwyd y flwyddyn ar ôl marw Collet; a

dilynwyd Joseph Collet yn weinidog yn Cote gan fab, Joseph Stennett – Joseph Stennett arall (1717?-1769).

2. *Joseph Collet (1673-1725)*. Bu'r Joseph Collet hwn yn Ddirprwy Lywodraethwr mewn gorsaf fasnachu yn Bengkulu, Gorllewin Swmatra, rhwng 1712 ac 1716, ac yna'n Llywodraethwr Madras rhwng 1717 ac 1719, ar ran yr 'East India Company'. Perthynai i hen deulu o fasnachwyr yn y Ddinas yn Llundain a oedd hefyd yn Fedyddwyr amlwg. Erbyn dechrau'r ddeunawfed ganrif yr oedd nifer o'i deulu, gan gynnwys Joseph Collet ei hun, yn tueddu at Ariaeth. Roedd sawl aelod o'r teulu hefyd yn feddygon, gan gynnwys ei frawd-yng-nghyfraith, Dr John Quincy (m. 1722), a'i nai, Dr John Collet (1708-80), Newbury. Yr oedd gan Joseph frawd iau o'r enw Samuel (1682-1773) – tad Dr John Collet, Newbury – a oedd yn grwynwr yn Llundain. Samuel oedd enw un arall o feibion hwnnw, a oedd yntau'n fasnachwr yn Llundain. Bu farw yn 1774, flwyddyn ar ôl ei dad, yng nghartref ei frawd John yn Newbury. Ar hyn, gw. H. H. Dodwell (gol.), *The Private Letter Books of Joseph Collet* (1933); Margaret Chadd, *Supplement to the Collett Saga* (1997), tt. 23-5; A. C. Underwood, *A History of the English Baptists* (1947), tt. 144-6. Cynhwysir yn llyfr Dodwell ddarn o ohebiaeth gan Joseph Collet at Joseph Stennett (1692-1758). Buont yn gohebu am fod Joseph Collet yn gyfaill i'w dad, Joseph Stennett arall eto (1663-1713), ac mae'n bosibl fod teuluoedd Stennett a Collet yn perthyn i'w gilydd, a barnu oddi wrth rai cyfeiriadau yn y llythyr.

Yr oedd y ddau Joseph Collet uchod yn perthyn i'w gilydd o bell – o fewn y nawfed ach efallai, ond ddim llawer yn nes na hynny. Er bod y ddwy gangen yn Fedyddwyr, a bod aelodau o'r ddwy wedi ymfudo i Seland Newydd mewn cyfnodau diweddarach (yn cynnwys Sir Arthur Dobson, yr enwyd 'Arthur's Pass' ar ynys ddeheuol Seland Newydd ar ei ôl), nid oedd unrhyw gysylltiadau rhwng y ddau Joseph Collet, hyd y gwn i, ar wahân i'r ffaith eu bod ill dau yn adnabod Joseph Stennett.

Nid wyf, ysywaeth, wedi llwyddo i gysylltu'r naill Joseph Collet na'r llall â Dr Samuel Collet yr emynydd. O ran y cysylltiadau, hawdd fyddai credu ei fod yn perthyn i Joseph Collet (Madras); a byddai dyddiadau Samuel ei frawd a Samuel ei nai yn eu gwneud yn ymgeiswyr posibl. Ond nid yw hynny'n cyd-daro â'r ffaith mai 'gweinidog Presbyteraidd yn sir Rhydychen' oedd tad Dr Samuel Collet yn ôl John Thickens. Joseph Collet (Cote) yw'r ymgeisydd amlwg ar gyfer hynny. Gwir mai gweinidog Bedyddiedig yn swydd Rhydychen ydoedd Joseph Collet (Cote), ac nid un Presbyteraidd; ond nid yw'n amhosibl o bell ffordd mai camgymeriad gan Thickens neu ei ffynhonnell ef yw'r 'Presbyteraidd' am 'Fedyddiedig'. Yn un peth, gallai'r ffiniau rhwng yr enwadau ymneilltuol fod yn bur hyblyg yn y

cyfnod dan sylw, a byddai camgymeriad o'r fath yn ddigon rhwydd i'w wneud o'r herwydd. Ar ben hynny, er na lwyddais i weld copi o lyfryn Samuel Collet ar fedydd (1761), casglaf fod y rhagair i'r llyfryn hwnnw yn rhoi'r argraff ei fod yn tueddu at fedydd credinwyr yn hytrach na bedydd plant. Wedi dweud hynny, nid oedd gan Joseph Collet (Cote) fab o'r enw Samuel, na pherthynas agos o'r un enw a fyddai'n ymgeisydd posibl, hyd y gwelaf. Ond os oedd Dr Samuel Collet yn perthyn neu beidio i'r naill Joseph Collet neu'r llall, mae'n bur debyg y byddai wedi adnabod aelodau o deulu Samuel Stennett, a barnu oddi wrth y math o gylchoedd yr oeddynt yn symud ynddynt. Yn sicr, buont yn defnyddio'r un cyhoeddwr ar un adeg, oherwydd John Noon, cyhoeddwr gweithiau Samuel Collet, oedd un o gyhoeddwyr *The Works of the late Reverend and Learned Mr. Joseph Stennett*, tad-cu Samuel Stennett, yn 1731-32.

O.N. Bydd erthygl ar emyn Goronwy gan Dr Jason Walford Davies yn ymddangos maes o law mewn cyfrol deyrnged i'r Athro Gwyn Thomas.

E. WYN JAMES  
*Caerdydd*